

## Gwirionedd

### Darlleniad: Salm 119: 1-24

---

---

‘Anfon dy oleuni a’th wirionedd . . . bydded iddynt fy nwyn i’th fynydd sanctaidd ac i’th drigfan. Yna dof at allor Duw, at Dduw fy llawenydd.’

O! Arglwydd ein Duw, yr hwn wyt gyfiawn a sanctaidd, ac a geisi gariad a gwirionedd oddi mewn, llanw ninnau â’r pethau hyn, gan ein nerthu i ymwrthod â phob cymhelliad hunanol. Symud ymaith o’n bywyd, ac o fywyd ein gwlad, bob anonestrwydd a thwyll. Cadw’r cyfoethog a’r breintiedig rhag anwybyddu anghenion y gwan a’r tlawd. Bydd di, O! Arglwydd, yn swcwr i bob person diamddiffyn. Bydded i egwyddorion dy deyrnas fod yn rhan o holl weithrediadau ein llywodraeth, a holl arferion y farchnad ariannol. Dymunwn weld dy wirionedd di yn ymledu i bob cylch o’n bywyd fel gwlad. Cwyd yn ein gwlad genhedlaeth a gais oleuni a gwirionedd, ac a fydd yn ffyddlon iddynt. Dyro inni’r gwyleiddra i eistedd wrth draed yr Athro mawr, fel y dysgwn ganddo, ac y rhodiwn yn ei lwybrau. Arwain ni ar hyd llwybrau cyfiawnder a dysg i ni dy wirionedd, oherwydd ti yw Duw ein hiachawdwriaeth.

Dyro inni galon uniawn i ymhyfrydu yn dy ddeddfau, a phâr inni fedru dweud gyda’r salmydd: ‘Ymhyfrydaf yn dy orchmynion am fy mod yn eu caru.’ Wrth inni weld dy ddeddfau di’n cael eu hamharchu, dyro inni sensitifrwydd ysbrydol i ymateb megis y salmydd: ‘Y mae fy llygaid yn ffrydio dagrau am nad yw pobl yn cadw dy gyfraith’.

Cydsyniwn â’r salmydd wrth iddo fawrhau gwerth dy ddeddfau i’n henaid: ‘Y mae dy gyfraith yn berffaith, yn adfywio’r enaid; y mae dy dystiolaeth yn sicr, yn gwneud y syml yn ddoeth; y mae dy ddeddfau yn gywir, yn llawenhau’r galon; y mae dy orchmynion yn bur, yn goleuo’r llygaid; y mae dy ofn yn lân, yn para am byth; y mae dy farnau yn wir, yn gyfiawn bob un. Mwy dymunol ydynt

nag aur, na llawer o aur coeth, a melysach na mêl, ac na diferion diliau mêl.'

‘Ti, O! Nefol Athro,  
Dysg i mi dy ffyrdd;  
Arwain i’r wybodaeth  
A oleua fyrdd;  
Sanctaidd yw dy Ddeddfau,  
Cyfiawn, gwir, a doeth,  
Ac sydd werthfawrocach  
Im nag yw aur coeth.’

Gad inni brofi o’r newydd flas a gorfoledd y bywyd uniawn.  
Tywallt dy oleuni a’th wirionedd i’n calon fel y rhodiwn dy lwybrau  
di holl ddyddiau ein bywyd, ac y cawn ein dwyn yn ddiogel i’th  
drigfan sanctaidd.

‘Mi wyraf weithiau ar y dde,  
Ac ar yr aswy law;  
Am hynny, arwain, gam a cham,  
Fi i’r Baradwys draw.’

Arwain ni felly, ein harweinydd a’n bugail, ar hyd llwybrau  
cyfiawnder a gwirionedd. Er mwyn dy enw. Amen.

*Dewi Roberts*